Cyngor Tref Amlwch |Town Council
Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor 26-9-2023 am 7 o'r gloch
Minutes of the Full Council meeting held at the Town Council Chamber 26-9-2023 at 7pm

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Meg Roberts, Gordon Warren, Liz Wood, Gerry Belanger, Noel Kerr

Ymddiheuriadau/Apologies: Nina Bulkley, Julie Edwards, Alan Wood, Gareth Thomas, Geraint Thomas, John Gill, Cyng/Cllr Derek Owen

Yn bresennol/In attendance: Carli Evans Thau (clerc/clerk)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies
Bu Gareth Roberts gadeirio'r cyfarfod a croesawyd pawb yn bresennol ac ymddiheuro nad oedd cyfieithydd yn bresennol. Bu croesawy Mike Williams, Anne Harris a Neil Summers, cynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Amlwch

Gareth Roberts chaired the meeting and welcomed all present and apologised that there was no interpreter present. Mike Williams, Anne Harris and Neil Summers, representatives of the Amlwch Industrial Heritage Trust were welcomed.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest
Dim/None

3 Ymddiriedolaeth Treftadaeth Diwydiannol Amlwch Industrial Heritage Trust
Cafwyd diweddariad am y sefyllfa bresennol yn ymwneud ag adeiladau hanesyddol ym Mhorth Amlwch. Cafwyd cefndir hefyd sut fod yr adeiladau wedi dod i feddiant Menter Mon, ac amlinelliad o waith yr Ymddiriedolaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd wybod nad oedd prydles ar hyn o bryd ar gyfer yr adeiladau dan sylw.

Trafodwyd y problemau a'r sialensau sydd wedi bod yn rhan o reolaeth yr adeiladau, a'r gwaith fyddai ei angen er mwyn gallu eu defnyddio i'w llawn potensial. Cafwyd wybod bod Menter Mon yn bwriadu gwerthhu'r adeiladau (Llofft Hwyliau, Biniau Copr, Twr)

Cafwyd cadarnhad bod yr eitemau hanesyddol oedd wedi eu benthyg i'r amgueddfa yn ddiogel, a bod cyswllt yn cael ei wneud gyda'r perchnogion i'w nol er mwyn eu cadw am y tro. Nid oes bwriad diddymu'r Ymddiriedolaeth, yn hytrach, mae angen canfod cartref addas hir dymor.

Bu cytuno byddai angen cydweithio rhwng CSYM, Menter Mon, yr Ymddiriedolaeth a'r Cyngor Tref i archwilio gwahanol opsiynnau posib. Bu cytuno bod angen diogelu treftadaeth a hanes y dref ar gyfer cenhedlaethau'r dyfodol. Cytuno cyfarfod eto yn fuan i adolygu'r sefyllfa.

Bu'r cynrychiolwyr adael y cyfarfod am 7.45.

An update was given on the current situation relating to historic buildings in Amlwch Port. The background as to how the buildings came into Menter Mon's possession, and an outline of the Trust's work over the past few years was also provided. It was noted that there was currently no lease on the buildings in question.

The problems and challenges that have been part of the management of the buildings were discussed, and the work that would be required in order to be able to use them to their full potential. Members were informed that Menter Mon intend to sell the buildings (Sail Loft, Copper Bins, Tower)

It was confirmed that the historical artefacts that had been loaned to the museum were safe, and that contact was being made with the owners to retrieve them in order to keep them for the time being. There is no intention to wind up the Trust, rather, to find a suitable long-term home.

It was agreed that there would be a need for collaboration between IACC, Menter Mon, the Trust and the Town Council to explore different possible options. It was agreed that the town's heritage

and history needed to be protected for future generations. Agree to meet again soon to review the situation.

The representatives left the meeting at 7.45.

4 Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting

Bu cymeradwyo'r cofnodion, cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts.
The minutes were approved, proposed Myrddin Owens, seconded Meg Roberts.

5 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

5.1 Grantiau CSYM – cytuno bod yr amserlen i ddatgan Diddordeb yn fyr iawn ac nad oedd wedi ei hysbysebu yn dda iawn gan CSYM. Nododd Liz Wood ei bod wedi rhannu'r wybodaeth dros gyfryngau cymdeithasol cymunedol ac wedi siarad a nifer o fusnesau. Nodwyd pryder bod angen prydles am oleiaf saith mlynedd a bod nifer o fusnesau yn ansicir o hyn. Cytuno anfon yn ol i CSYM i ddiolch am y wybodaeth a gofyn am estyniad i'r dyddiad ymateb er mwyn cael hyrwyddo'r cyfle ac i'r busnesau cael siaws i gael amcanbrisiau am unrhyw waith. Cytuno danfon copi papur o'r ffurflen gais i pob busnes yng nghanol y dref, bu Gerry Belanger wirfoddoli i'w dosbarthu.

IACC Grants - agreed that the timeframe to declare Interest was very short and had not been advertised very well by IACC. Liz Wood noted that she had shared the information on social media and had spoken to a number of businesses. Concern was noted that a lease is required for a period of seven years and that a number of businesses are unsure of this. Agreed to thank IACC for the information and ask for an extension to the deadline in order to be able to promote the opportunity and for the businesses to be able to get estimates for any work. Agreed to deliver a paper copy of the application form to all businesses in the town centre, Gerry Belanger volunteered to distribute them.

5.2 Terfynell Forwrol – dim diweddariad, y clerc i gysylltu a CSYM am ddiwedddariad am eu cynlluniau ar gyfer yr adeilad.

Marine Terminal – no update, the clerk to contact IACC for an update on their proposals for the building.

5.3 Llwybr Parys Farm – dim diweddariad am y llwybr na'r gwyn. Cadarnhawyd bod gwybodaeth wedi ei anfon ymlaen i'r sawl oedd wedi cwyno.

Parys Farm Footpath – no update regarding the path or complaint. It was confirmed that information had been forwarded to the complainant.

5.4 WiFi cymunedol – mae disgwyl i'r system fynd yn fyw cyn i'r cwmni gynnal cyfarfod a gweithdy cymunedol.

Community WiFi – the company are waiting on the system to go live before arranging a meeting and workshop.

5.5 Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Syr Thomas Jones – daw ymateb gan cadeirydd y bwrdd yn cadarnhau bydd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf (28/9). Teimlai'r aelodau dylai cyfarfod arbennig fod wedi cael ei alw i drafod mater o'r fath. Cytuno cysylltu i ddiolch i Richard Jones am yr ymateb a gofyn am ei farn fel cadeirydd y bwrdd. Nodwodd Liz Wood nad oedd derbyn gwahoddiadau i fynychu'r cyfarfodydd er wi bod yn aelod o'r bwrdd.

Ysgol Syr Thomas Jones Board of Governors - a response comes from the chairman of the board confirming that the issue will be discussed at the next meeting (28/9). The members felt that a special meeting should have been called to discuss such a matter. Agreed to contact to thank Richard Jones for the response and ask for his opinion as chairman of the board. Liz Wood noted that invitations to attend the meetings were not received despite being a member of the board.

6 Pwyllgorau Allanol / External Meetings

6.1 Porthladd Rhydd– bu Gordon Warren rannu gwybodaeth yn dilyn cyfarfod i hyrwyddo'r cynllun.
Free Port – Gordon Warren shared information following a meeting to promote the scheme.

6.2 Fforwm Cyswllt – bu Gordon Warren rannu gwybodaeth yn dilyn y cyfarfod. Nodwyd bod cyflwyniad y Prif Weithredwr wedi ei ddosbarthu eisioes drwy ebost. Nodwyd bod CSYM yn bwriadu codi 30 uned preswyl newydd ar yr ynys yn flynyddol, Gordon Warren i anfon mwy o wybodaeth i'r aelodau wedi'r cyfarfod. Pwysleidiodd bod y Pwyllgor Safonnau yn awyddus iawn bod aelodau yn derbyn hyfofrddiant. Cadarnhaodd bod posib gwneud ceisiadau bach (hyd at 10k) i'r Gymdeithas ar unrhyw adeg bellach.

Bu gofyn i'r clerc gysylltu a CSYM am ddiweddariad am y datblygiadau preswyl ger Maes William Williams a ger Maes Mona.

Liaison Forum - Gordon Warren shared information following the meeting. It was noted that the Chief Executive's presentation had already been distributed by email. It was noted that IACC intends to build 30 new residential units on the island annually; Gordon Warren to send more information to the members after the meeting. He emphasised that the Standards Committee is very keen that members receive training. He confirmed that it is now possible to make small requests (up to 10k) to the Gymdeithas at any time.

The clerk was asked to contact IACC for an update on the residential developments near Maes William Williams and near Maes Mona.

6.3 Menter Mon – Nodwyd bod cyfarfod anffurfiol wedi ei gynnal gyda cynrychiolwyr Menter Mon ynglyn ag adeiladau Porth Amlwch, bydd mwy o wybodaeth i'w rannu wrth i drafodaethau barhau.

Menter Mon – it was noted that an informal meeting had taken place with representatives of Menter Mon regarding buildings in Amlwch Port, more information will be shared as discussions continue.

7 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Nododd bod manylion am daliadau wedi eu cymeradwyo a'r balans yng nghyfrifon banc y Cyngor ar gael gan y clerc. Nododd bod dogfennau archwiliad wedi ei derbyn gan yr achwiliwr mewnol heddiw ac wedi eu dosbarthu i'r aelodau. Bu tynnu sylw at ddau fater yn adroddiad yr archwiliwr mewnol sef bod angen adolygu rheolau sefydlog a rheolau ariannol y Cyngor, a bod angen asesu'r broses gyfredol o wneud taliadau ar lein. Bydd y Pwyllgor yn edrych ar hyn yn eu cyfarfod nesaf.

Bu derbyn y ffurflen flynyddol a'r adroddiadau cefnogol a chytuno eu cyflwyno i Archwilio Cymru. Nodwyd mai £985,282 oedd y ffigwr ar gyfer asedau sefydlog nad oedd wedi ei gynnwys ar y ffurflen cafodd ei hanfon i'r aelodau.

Bu'r Pwyllgor gytuno gosod larwm a chamera tu allan i ddrws swyddfa'r clerc er diogelwch.

Nodwyd siom nad oedd unrhyw gyswllt gan y cyfreithiwr oedd yn delio a'r achos yn ymwneud a'r prosiect Effeithlonrwydd Ynni. Y clerc i gysylltu yn ysgrifennedig am ddiweddariad.

Myrddin Owens gave a summary of the meeting. He noted that details of approved payments and the balance in the Council's bank accounts were available from the clerk. He noted that the audit documents had been received by the internal auditor today and distributed to the members. Attention was drawn to two issues in the internal auditor's report, namely that the Council's standing orders and financial regulations need to be reviewed, and that the current process of making payments online needs to be assessed. The Committee will look at this at their next meeting.

The annual form and supporting reports were received and agreed to be submitted to Audit Wales. It was noted that the figure for fixed assets was £985,282 which was not included on the form that was sent to the members.

The Committee agreed to install an alarm and a camera outside the door of the clerk's office for safety.

Disappointment was noted that there was no contact from the lawyer dealing with the case relating to the Energy Efficiency project. The clerk to contact in writing for an update.

8 Materion Cynllunio / Planning Matters

8.1 Bu ystyried y ceisiadau canlynol / *the following applications were considered:*
HHP/2023/151 Plas Pedr, Parc Trecastell – dim gwrthwynebiad / no objection
VAR/2023/45 Waen, Stad Diwydiannol Amlwch – dim gwrthwynebiad / no objection
FPL/2023/127 Hafodllin Fawr, Rhosgoch – di gwrthwynebiad / no objection

Daw cais gan ddatblygwyr safle Gwesty Porth Llechog yn cynnig yr enwau 'Gwel y Mor' ar gyfer y fflatiau a 'Tai Porth Llechog' ar gyfer y tai ar y safle. Roedd yr aelodau yn gefnogol o'r enwau.

Bu tynnu sylw at yngynghoriad cyn-cais gan CSYM ar gyfer datblygiad unedau busnes yn y dref. Ni fu unrhyw sylwadau ar y cais ar y cam yma o'r broses.

An application comes from the developers of the Bull Bay Hotel site offering the names 'Gwel y Mor' for the apartments and 'Tai Porth Llechog' for the houses on the site. The members were supportive of the names.

Attention was drawn to a pre-application consultation by IACC for the development of business units in the town. There were no comments on the application at this stage of the process.

8.2 Cafwyd gwybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn / *IACC decisions were noted as follows:*
HHP/2023/108 Llais y Lli, 2 Maes Ednyfed – caniatad / approved
HHP/2022/24 2 Trecastell Park – caniatad / approved
LBC/2023/9 Ysgol Syr Thomas Jones – caniatad / approved
HHP/2023/146 27 Awelfryn, Amlwch – caniatad / approved
FPL/2023/119 Gwesty Porth Llechog Bull Bay Hotel – caniatad / approved
HHP/2023/152 Gwel y Coed – caniatad /approved

9 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors

9.1 Tafarn Market Tavern – bu tynnu sylw at ddigwyddiad yn ddiweddar. Nodwyd pryderon eto am y dafarn a'r effaith ar gymdogion lleol. Mae CSYM yn ymwybodol o'r sefyllfa.

Market Tavern - attention was been drawn to a recent incident. Concerns were again noted about the pub and the impact on local neighbours. IACC is aware of the situation.

9.2 Gofynnwyd am ddiweddariad pa bryd fyddai'r biniau yn cael eu symud yn unol a thrafodaethau rhai misoedd yn ol bellach. Mae sbwriel a baw ci yn parhau yn broblem. Nodwyd bod y Pwyllgor Cyllid wedi cytuno i'r clerc wario hyd at £600 ar fagiau baw ci ar gyfer y blychau dosbarthu mewn partneriaeth a chynghorau Cymuned er mwyn cael gwerth am arian. Nidy w CSYM yn gallu eu darparu mwyach.

An update was requested as to when the bins would be moved in accordance with discussions some months ago now. Litter and dog fouling remain a problem. It was noted that the Finance Committee had agreed for the clerk to spend up to £600 on dog poo bags for the distribution boxes in partnership with Community councils in order to secure best value for money. IACC are no longer able to supply the bags.

9.3 Garej Glanrhos – nododd Liz Wood ei bod wedi bod mewn cyswllt a'r perchenog a'u bod hwythau wedi cadarnhau bod cynlluniau wedi eu cyflwyno i CSYM ers cyn covid. Mae Liz Wood wedi gofyn am gyfarfodydd i'r aelodau sirol a swyddogion cynllunio, ac i'r swyddogion a'r perchenog. Nodwyd bod y perchenog yn ymwybodol bod y ffens wedi disgyn ac yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Tan.

Glanrhos garage - Liz Wood noted that she had been in contact with the owner and that they had confirmed that plans had been submitted to IACC since before covid. Liz Wood has requested meetings for the county members and planning officers, and for the officers and the owner. It was noted that the owner is aware that the fence has fallen and is working with the Fire Service.

9.4 Cyfyngiadau 20mya – bu Myrddin Owens dynnu sylw bod CSYM erbyn hyn gyda'r pwerau i allu newid y cyfyngiadau mewn rhai ardaloedd. Gofynnwyd am sicrwydd bydd ymgynghoriad ffurfiol gyda'r Cyngor Tref cyn i unrhyw newidiadau cael eu gwneud.

20mph restrictions - Myrddin Owens pointed out that the IACC now has the powers to be able to change the restrictions in some areas. Assurance was sought that there will be a formal consultation with the Town Council before any changes are made.

9.5 Hygyrchedd – gofynnwyd pam nad oedd y gwaith i osod 'dropped kerbs' a gwelliannau i'r palmentyd dwedi ei gwblhau drwy'r dref i gyd. Cadarnhawyd bod rhestr wedi ei ddarparu i CSYM ar ddechrau'r prosiect, cytuno diolch am y gwaith hyd yma a gofyn am ddiweddariad.

Accessibility - it was asked why the work to install 'dropped kerbs' and improvements to the pavement had not been completed throughout the town. It was confirmed that a list had been provided to IACC at the start of the project, agreed thanks for the work so far and asked for an update.

10 Gohebiaeth / Correspondence

Nodwyd bod unrhyw eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon i'r aelodau drwy ebost wrth iddynt ddod law.

Bu'r clerc nodi bod y dobsarth Cymraeg i ddechrau yn y Siambr mis Hydref wedi ei lenwi yn barod, cyn i'r posteri gael eu dosbarthu. Gan fod galw am hyfforddiant o'r fath, mae'r Brifysgol yn gobeithio cynnal cwrs arall yn y Siambr ar nos Iau, gan ddechrau ym mis Tachwedd – mwy o wybodaeth i ddilyn.

It was noted that all items of correspondence had been forwarded to the Members by e-mail as and when they came to hand.

The clerk noted that the Welsh class to start in the Chamber in October had already been filled, before the posters were distributed. As there is a demand for such training, the University hopes to hold another course in the Chamber on Thursday evenings, starting in November - more information to follow.

11 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn 24-10-2023 am 7yh.
The next Full Council meeting will be held 24-10-2023 at 7pm.

Bu Myrddin Owen nodi dylai bod cyfieithydd ar gael ar gyfer pob cyfarfod y Cyngor Llawn a'r Pwyllgorau, bu gynnig bod y Cadeirydd, os yn ymwybodol ymlaen llaw nad oedd cyfieithydd ar gael ar gyfer cyfarfod yn gohurio'r cyfarfod hwnw. Bu cytuno yn unfrydol.

Myrddin Owen noted that an interpreter should be available for all meetings of the Full Council and the Committees, it was proposed that the Chairman, if aware in advance that an interpreter was not available for a meeting, postpones that meeting. It was unanimously agreed.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.45yh /*The meeting closed at 8.45pm.*

Gareth Winston Roberts OBE
Cadeirydd / Chair
Cyngor Tref Amlwch Town Council